MAPPA

TREFNIADAU AMLASIANTAETHOL AR GYFER DIOGELU'R CYHOEDD

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2006-2007

yn cyd-weithio i ddiogelu'r cyhoedd

CYNNWYS

2 RHAGAIR GWEINIDOGOL

4 RHAGARWEINIAD I MAPPA

5 - 6 SUT MAE'R MAPPA YN GWEITHREDU YNG NGWENT

7 BWRDD RHEOLI STRATEGOL

8 - 9 CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

10 - 11 GWYBODAETH YSTADEGOL

12 Y FFORDD YMLAEN

13 CYSYLLTIADAU

Dyluniwyd gan Adran
Cysylltiadau Corfforaethol
Heddlu Gwent

RHAGAIR GWEINIDOGOL

Dyma chweched adroddiad blynyddol MAPPA, a'r cyntaf gyda rhagair gan y Gweinidog Cyfiawnder. Yn gyntaf, rwyf am danlinellu ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i'r trefniadau hyn. Mae amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr treisgar yn nod craidd i'r Adran newydd. Yn union fel y mae effeithlonrwydd MAPPA yn lleol yn dibynnu ar ansawdd y berthynas weithio, byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref, yr Heddlu, ac eraill i ddatblygu'r fframwaith gorau posibl y gall MAPPA weithredu ynddi.

Ar 13 Mehefin cyhoeddodd y Llywodraeth y ddogfen Adolygu Amddiffyn Plant Rhag Troseddwyr Rhyw. Ynddi ceir rhaglen o weithredoedd sy'n cynnwys datblygu'r defnydd o driniaeth cyffuriau ar gyfer troseddwyr rhyw a chynnal cynllun peilot o'r defnydd o brofion polygraff gorfodol fel arf rheoli risg, gwella'r drefn sy'n gweithredu mewn Safleoedd Cymeradwy, a hefyd ystod o weithrediadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y ffordd y mae MAPPA yn gweithio. Yr wyf am roi sylw i ddau ohonynt yma.

Yn gyntaf, dywed ymchwil wrthym y caiff trefniadau eisoes eu defnyddio'n llwyddiannus i ddatgelu gwybodaeth am droseddwyr peryglus ond rydym o'r farn y gellir gwella ar hyn. Bydd yn ofynnol i asiantaethau MAPPA ystyried datgelu ym mhob achos. Byddwn yn cynnal cynllun peilot lle bydd rhieni yn gallu cofrestru diddordeb amddiffyn plant mewn unigolyn a enwir y mae ganddynt berthynas bersonol ag ef/hi ac y mae ganddynt fynediad cyson heb arolygiaeth at eu plentyn. Os oes gan y person euogfarnau am droseddau rhyw yn erbyn plant a bod y plentyn mewn perygl, byd rhagdyb y caiff y troseddau eu datgelu i'r rhiant.

Yn ail, wrth i MAPPA ddatblygu dros y 6 mlynedd diwethaf cafodd modelau arfer gorau eu dynodi sy'n dangos bod angen rolau ac ymagweddau penodol i sicrhau y caiff ei reoli'n effeithiol. Rydym wedi ymrwymo i gryfhau'r trefniadau MAPPA a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad cadarn yn eu lle. Er mwyn cyflawni hyn bwriadwn gyflwyno safonau cenedlaethol newydd, a fydd yn sicrhau ymagwedd gyson ar draws Meysydd a byddwn yn rhoi £1.2 miliwn i gefnogi Meysydd i roi'r safonau ar waith.

Ein nod yw gwneud popeth y gellir yn rhesymol ei wneud i amddiffyn pobl rhag troseddwyr hysbys peryglus. Gwyddom fod lle o hyd i wella. Cymeradwyaf yr adroddiad blynyddol hwn i chi fel arwydd o ymrwymiad, sgiliau a chyflawniadau'r gweithwyr proffesiynol, a'r ymgynghorwyr lleyg, mewn rheoli a monitro'r maes busnes hanfodol hwn sy'n aml yn un anodd.

Maria Eagle AS
Is Ysgrifennydd Gwladol Seneddol

Geoffrey Hughes
Rheolwr Gweithrediadol
HMPS Cymru

Jane Coates
Prif Swyddog
Ardal Prawf Gwent

Mike Tonge
Prif Gwnstabl
Heddlu Gwent

RHAGARWEINIAD I MAPPA

Yn ystod y chwe mlynedd y mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) wedi bod yn gweithredu yng Ngwent, y mae'r dull o weithio mewn partneriaeth rhwng yr Heddlu, y Gwasanaeth Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf, er mwyn rheoli'r risgiau a berir gan droseddwyr difrifol wedi aeddfedu a chryfhau yn unol â'n profiad cydweithredol o ymdrin â'r maes gwaith heriol a chymhleth hwn. Yn y tudalennau canlynol rydym yn disgrifio rhai o'r cerrig milltir diweddaraf yr ydym wedi eu cyflawni wrth weithio gyda'n gilydd i greu fframwaith MAPPA clir a chadarn, wedi ei anelu at wireddu ein blaenoriaeth yng Nghynllun Busnes 2006/07 o 'gael yr hanfodion yn iawn' a defnyddio ein hadnoddau cyfun yn y modd gorau i leihau'r risgiau hynny i isafswm realistig.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o achos Craig Sweeney wedi cyfrannu'n sylweddol at ein cynllunio a'n gwaith o wneud penderfyniadau drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf ac mae ein hymrwymiad i gefnogi dioddefwyr trosedd difrifol, gan gynnwys troseddau rhyw, yn parhau wrth galon popeth a wnawn. Wrth i'r systemau a'r strwythurau a ddefnyddiwn i dargedu, monitro a goruchwylio troseddwyr fynd yn fwy ymatebol a soffistigedig, mae'n anochel bod mwy o droseddwyr yn cael eu tynnu i mewn i gylch gorchwyl MAPPA, neu yn dod yn destun cosbau o ganlyniad i fethu â chydymffurfio ag amodau llym eu gofynion cofrestru, eu gorchymyn llys neu eu trwydded wedi carchariad. Fe welwch y cynnydd hwnnw mewn ffigurau yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

Mae'r rheolaeth fwyfwy effeithiol a chadarn ar unigolion sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd mewn perygl o gyflawni niwed difrifol yn ymdreiddio drwy holl waith MAPPA Gwent ac fe'i cefnogir gan Uwch Awdurdodau Cyfrifol yr Heddlu, y Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf yn ogystal â'r holl sefydliadau eraill, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, darparwyr llety a'r gwasanaethau iechyd, o fewn rhwydwaith bartneriaeth dynn ac ymatebol. Mae'r adroddiad hwn yn dystiolaeth i effeithiolrwydd yr ymagwedd honno ac i ymrwymiad parhaus partneriaeth MAPPA i sicrhau bod pobl Gwent yn cael eu hysbysu'n briodol am y gwaith a wneir ar eu rhan i leihau'r peryglon a berir gan droseddwyr difrifol ac i gadw cymunedau yn ddiogel rhag niwed a achosir gan droseddu.

SUT MAE'R MAPPA YN GWEITHREDU YNG NGWENT

Sefydlwyd Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd Gwent yn 2001. Mae gan Heddlu Gwent a Gwasanaeth Prawf Gwent staff penodedig sy'n gweithio yn bennaf gyda throseddwyr MAPPA, ac mae wedi bod yn galonogol nodi cysylltiadau gwaith llawer agosach gyda Gwasanaeth Carchardai Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae penodi Cydgysylltydd MAPPA wedi cryfhau cadernid trefniadau lleol ymhellach.

Cadeirir cyfarfodydd MAPPA gan Reolwyr Prawf ac Uwch Swyddogion yr Heddlu, ac mae holl Gadeiryddion MAPPA wedi derbyn hyfforddiant perthnasol yn ystod y flwyddyn. Meithrinwyd cysylltiadau gwaith cryf gydag asiantaethau 'Dyletswydd i Gydweithredu'. Mae Adrannau Tai Awdurdodau Lleol a landlordiaid cymdeithasol yn hollbwysig, yn ogystal â Gwasanaethau Iechyd Fforensig, Gwasanaethau Cymdeithasol, a swyddogion cyswllt dioddefwyr. Asiantaeth sy'n arbennig o bwysig i MAPPA yw Trothwy ARMS (Cynllun Llety a Rheoli Risg), partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Prawf a Thai Trothwy sy'n darparu cefnogaeth llety strwythuredig i droseddwyr MAPPA.

Amcanion unrhyw gyfarfod MAPPA yw penderfynu ar lefel y perygl o niwed difrifol a berir gan droseddwr, a chreu cynllun rheoli risg cadarn i ymdrin â'r perygl hwnnw. Enghraifft dda o hyn yw 'Nicholas', troseddwr rhyw a oedd yn cael ei reoli ar Lefel 3 MAPPA. Bu Nicholas yn y carchar yn cyflawni dedfryd hir am droseddau difrifol yn erbyn bechgyn. Ystyrid bod risg uchel y byddai'n achosi niwed difrifol, ac roedd ganddo anawsterau seiciatrig sylweddol a oedd yn cynyddu ei risg. Fe'i rhyddhawyd i Hostel Prawf mewn rhan arall o'r wlad, ac ar ôl tri mis dychwelodd i Went. Ar y dechrau fe'i rhoddwyd mewn ysbyty meddwl i gael asesiad seiciatrig. Nid oedd yn gallu dychwelyd i'w dref enedigol lle roedd y rhai oedd wedi

dioddef o'i herwydd yn dal i fyw, ac felly dyfeisiwyd trefniant dwyochrog yn MAPPA rhwng adrannau tai dau awdurdod lleol a chymdeithas tai. Fe'i rhoddwyd mewn fflat yn rhywle arall yng Ngwent, mewn llety nad oedd unrhyw blant yn byw. Roedd cyswllt dyddiol bron rhyngddo ef a'r Gwasanaethau Prawf, y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Fforensig, Prosiect Trothwy ARMS a'r Heddlu. Bu hefyd yn gwneud gwaith un i un gyda seicolegydd fforensig i ymdrin â'i ymddygiad troseddol. Roedd y gwaith hwn yn parhau pan ddaeth ei drwydded i ben heb unrhyw droseddu pellach.

Achos arall sy'n dangos lefel uchel o gydweithrediad rhyngasiantaethol yw achos 'Bernard' a reolwyd ar Lefel 2 MAPPA. Roedd Bernard wedi cyflawni trosedd rywiol ddifrifol yn gynnar yn yr 1970au ac roedd yn cael ei oruchwylio yn y gymuned am drosedd a ystyrid yn llai difrifol. Newidiodd ei amgylchiadau cartref yn ddramatig gan adlewyrchu'r amgylchiadau yr oedd ynddynt tua'r adeg y cyflawnodd ei drosedd gyntaf. Effeithiodd hyn ar ei ymddygiad, a'i agwedd a newidiodd ei ymddangosiad a chododd y ffactorau hyn bryderon ynglŷn â'r perygl a allai fod ynghlwm wrtho. Galwyd cyfres o gyfarfodydd MAPPA a gafodd eu mynychu gan yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Adran Tai, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â chynrychiolwyr o gorff iechyd meddwl gwirfoddol lleol (MIND) a Landlord Cymdeithasol Cofrestredig arbenigol (Trothwy Cyf). Roedd gan y ddwy asiantaeth olaf wybodaeth am Bernard a byddent yn gallu cynnig cefnogaeth yn y dyfodol. Lluniwyd cynllun rheoli risg wedi ei gydgysylltu'n dda tra cynhaliwyd asesiadau risg parhaus. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar gael Bernard wedi ei asesu'n briodol o ran ei anghenion ond yn bwysicach ar gyfer y perygl y gallai beri. Gweithiodd yr asiantaethau dan sylw gyda'i gilydd i herio ymddygiad Bernard a'i sefydlogi yn ei lety. Gwnaeth hyn hi'n bosibl i asesiad trylwyr gael ei gynnal a ddaeth i'r casgliad fod y perygl a berid ganddo wedi lleihau i bwynt lle gellid ei reoli gan un asiantaeth. Nid yw Bernard bellach yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd MAPPA, mae'n parhau i gysylltu â'r amrywiol asiantaethau ac nid yw wedi aildroseddu.

BWRDD RHEOLI STRATEGOL

Monitro ac Adolygu

Cynhaliwyd adolygiad mawr o holl achosion Lefel 2 a 3 MAPPA yn gynnar yn y flwyddyn. Roedd y rhain yn ymwneud nid yn unig ag asiantaethau 'Awdurdod Cyfrifol', ond staff o asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu gan gynnwys Cydgysylltwyr Amddiffyn Plant. Er bod yr adolygiadau ar y cyfan yn gadarnhaol dynodwyd problemau yn ymwneud ag ansawdd y Cynlluniau Rheoli Risg yn deillio o rai o'r cyfarfodydd MAPPA, ac ynghylch cynrychiolaeth briodol gan asiantaethau yng nghyfarfodydd Lefel 2 a 3 MAPPA. Ymdriniwyd â'r rhain yn y gweithdrefnau MAPPA lleol diwygiedig (gweler Cyflawniadau Allweddol).

Roedd y Bwrdd Rheoli Strategol hefyd yn ymwneud yn agos â'r gwaith o adolygu achos 'Craig Sweeney'. Comisiynodd adroddiad annibynnol gan Heddlu Dyfed-Powys a drafodir ar dudalen 9 yr adroddiad blynyddol hwn.

Cysylltiadau â Strwythurau Eraill i Ddiogelu'r Cyhoedd

Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol yw Prif Gwnstabl Cynorthwyol Gwent gyda'r Prif Swyddog Cynorthwyol fel ei ddirprwy. Daeth Byrddau Lleol Amddiffyn Plant yn weithredol yng Nghymru ar ddiwedd 2006/07, ac mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi cytuno y bydd y Gwasanaeth Prawf yn arwain o ran cysylltu eu gwaith gyda'r Bwrdd Rheoli Strategol drwy ei dri o Brif Swyddogion Cynorthwyol gweithredol. Mae cyflwyniadau eisoes wedi eu gwneud i nifer o Fyrddau Lleol Amddiffyn Plant a bydd yr adroddiad hwn ar agenda pob un ohonynt. Bydd yr un Prif Swyddogion Prawf Cynorthwyol hefyd yn eistedd ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol a Byrddau Rheoli Timau Troseddau Ieuenctid.

Ymgynghorwyr Lleyg

Mae recriwtio ymgynghorwyr lleyg wedi bod yn broblem i Fwrdd Rheoli Strategol MAPPA Gwent. Mae'r ddau a benodwyd yn wreiddiol wedi ymddiswyddo, a dim ond un ymgeisydd addas a ymddangosodd o ail ymgyrch recriwtio yn ystod 2006/07. Mae ymdrechion yn parhau i lenwi'r swydd bwysig hon.

Strwythur yr Is-bwyllgorau

Mae MAPPA wedi datblygu strwythur o is-bwyllgorau yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal ag Is-bwyllgorau hyfforddiant a llety, cafwyd cyfres o grwpiau gorchwyl a gorffen i ymdrin â materion penodol, ac yn fwyaf nodedig creu gweithdrefnau MAPPA lleol newydd wrth edrych ymlaen at adroddiad trosolwg 'Craig Sweeney'.

CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

A) Strategaeth 3 Blynedd

Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol bellach yn ail flwyddyn y strategaeth tair blynedd. Mae hon yn Weledigaeth Strategol drosfwaol 3 blynedd gyda 3 o brif amcanion. Y rhain yw:

- Cael yr hanfodion yn iawn
- Ehangu a mesur effeithiolrwydd y Bwrdd
- Creu hyder ymhlith y cyhoedd drwy ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r prif amcanion hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Busnes Blynyddol a bwriedir iddynt roi cyfeiriad clir i'r Bwrdd am y tair blynedd.

B) Cynllun Busnes Blynyddol

Roedd y Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer 2006/7 felly yn canolbwyntio ar "gael yr hanfodion yn iawn". Cyflawnwyd llawer o'r amcanion; penodwyd y cydgysylltydd MAPPA; diwygiwyd y gweithdrefnau MAPPA lleol; darparwyd hyfforddiant i holl gadeiryddion MAPPA. Parhaodd gwaith ar y Strategaeth Llety o fewn Gwent, a bydd bellach yn cael ei chynnwys o fewn Strategaeth Llety Cymru Gyfan. Eleni gwelir mwy o waith, gan sicrhau bod ein sylfeini yn gadarn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan wybod bod aelodau cyfansoddol MAPPA i gyd yn wynebu pwysau sylweddol o ran y gyllideb ac y bydd ar unrhyw ddatblygiad angen asesiad gofalus o'r effaith ar wasanaethau eraill. Meysydd allweddol i'w hystyried fydd p'run ai a yw'r cymorth gweinyddol sydd ar gael yn ddigonol i ateb y galw a sut y byddwn yn cynyddu nifer y troseddwyr a reolir drwy ein system VISOR. Mae'r rhain i gyd wedi cael eu cynnwys yn ein cynllun busnes newydd. Er hynny, mae Cynllun Busnes Blynyddol 2007/8 hefyd yn edrych ymlaen at "ehangu a mesur effeithiolrwydd y Bwrdd". Ceir datblygiadau cyffrous ar draws Cymru. Bydd y Grŵp Datblygu Awdurdodau Cyfrifol Cymru Gyfan sydd newydd ei sefydlu yn annog cydweithio ar draws Cymru, ac yn cysylltu gydag asiantaethau eraill gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru i alinio polisïau a phrosesau, ac i fanteisio ar gyfleoedd cyllido. Mae cynlluniau hefyd i ddatblygu Strategaeth Llety Cymru Gyfan a fyddai'n cwtogi ar hyd yr amser a gymerir i ail-letya troseddwyr. Byddwn yn ceisio gwella ein gallu i ddatblygu trosolwg drwy ddatblygu ein fframwaith archwilio a sicrhau bod adolygiadau chwarterol yn fwy perthnasol. Cytunwyd ar gylch gorchwyl i is-grwpiau sy'n adrodd i'r Bwrdd Rheoli Strategol. Bydd gwaith yr is-grŵp hyfforddiant yn bwysig oherwydd bod y Bwrdd yn arbennig o awyddus i sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â MAPPA wedi eu hyfforddi'n briodol. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod proffil MAPPA yn cael ei godi gyda'r holl staff yn yr asiantaethau 'Dyletswydd i Gydweithredu' a'r 'Awdurdodau Cyfrifol'. Bydd hyn yn cysylltu â strategaeth gyfathrebu ehangach wrth i ni symud ymlaen i Flwyddyn 3.

C) Dysgu Gwersi

Ym mis Rhagfyr 2006 cyhoeddodd Bwrdd Rheoli Strategol Gwent yr Adroddiad Trosolwg yn nodi prif ganfyddiadau a holl argymhellion yr adolygiad i reolaeth Craig Sweeney o fewn MAPPA Gwent, yn amlygu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Rheoli Strategol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf yn erbyn pob un o'r argymhellion. Cyhoeddwyd y ddogfen hon er mwyn cyflawni ymrwymiad Bwrdd Rheoli Strategol Gwent i rannu'r dysgu o'r adolygiad. Gwnaed yr ymrwymiad hwn o ganlyniad i'r pryder dealladwy ymhlith y cyhoedd yr oedd yr achos arbennig hwn wedi ei greu. Yn union ar ôl y digwyddiad, sicrhaodd Bwrdd Rheoli Strategol Gwent fod yr holl weithdrefnau presennol yn cael eu hadolygu. Cafodd hyn ei gwblhau ac felly roedd llawer o'r argymhellion yn yr adolygiad wedi eu trin cyn y cyhoeddi. Roedd llety a hyfforddiant yn faterion allweddol yn yr adolygiad a gweithredir arnynt drwy gyfrwng y Bwrdd Rheoli Strategol. Mae Heddlu Gwent hefyd yn cynnal Adolygiad Llu i bob agwedd ar waith diogelu'r cyhoedd a fydd yn cynnwys lefelau staffio a lefelau gofynnol ar gyfer goruchwyliaeth. Felly, mae Bwrdd Rheoli Strategol Gwent wedi dangos ei ymrwymiad i ddysgu o'r achos hwn, ac maent yn parhau i ddatblygu arferion gwaith cadarn rhwng asiantaethau sy'n cadw perygl niwed i isafswm. Mae'n bwysig, er hynny, cydnabod o fewn y cyd-destun hwn, na all risg fyth gael ei ddileu yn gyfan gwbl ond gwneir pob ymdrech i'w liniaru.

D) Swyddogaeth Carchar

Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn parhau i chwarae rôl strategol a gweithredol ym mhroses MAPPA. Mae ymrwymiad arbennig i godi proffil y Gwasanaeth Carchardai fel 'Awdurdod Cyfrifol'. Mae penodi uwch reolwr i arwain ynglŷn â diogelu'r cyhoedd o fewn Cymru wedi rhoi mwy o gysondeb a mewnbwn arbenigol i gynrychiolaeth y Rheolwr Ardal ar y Bwrdd Rheoli Strategol.

Gobeithir y bydd gwell cyfathrebu a gwelliannau mewn asesiad risg deinamig yn ei gwneud yn bosibl i gyfoeth o wybodaeth o ansawdd ynghylch rhai a enwir yn MAPPA a gedwir yn y ddalfa fod ar gael yn rhwydd i'r paneli. Bydd yr arweinydd ar Ddiogelu'r Cyhoedd yn ddolen gyswllt gyda'r holl sefydliadau carchar ond bydd hefyd yn datblygu materion megis gwaith Swyddogion Cudd-wybodaeth yr Heddlu, protocolau gwybodaeth a rheoli rhai a enwir yn y MAPPA mewn amodau agored.

E) Cydgysylltydd MAPPA

Dechreuodd ein Cydgysylltydd MAPPA yn ei swydd ym mis Ionawr 2007. Mae hyn wedi galluogi MAPPA i ddatblygu'n sylweddol yng Ngwent oherwydd bod y Cydgysylltydd yn aelod o'r Bwrdd Rheoli Strategol ac yn adnodd pwrpasol. Mae ei gyfrifoldebau yn cynnwys hwyluso, trefnu a chymryd cofnodion yng nghyfarfodydd Lefel 3 MAPPA; cadeirio cyfarfodydd Lefel 2; adolygu gweithdrefnau ac arferion; casglu data perthnasol, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth. Mae eisoes wedi sefydlu cysylltiadau â chydgysylltwyr eraill ar draws Cymru i rannu arferion gorau a sicrhau cydweithio. Mae'n gyswllt hanfodol rhwng ymarferwyr a'r Bwrdd Rheoli Strategol, i sicrhau bod y Bwrdd Rheoli Strategol yn ymwybodol o faterion sy'n effeithio ar ymarferwyr, a bod gan ymarferwyr fwy o ymwybyddiaeth am y Bwrdd Rheoli Strategol.

GWYBODAETH YSTADEGOL

Eleni mae'r ffigurau yn dangos bod 406 o droseddwyr rhyw cofrestredig (categori 1) yn byw yng Ngwent o'i gymharu â 391 yn adroddiad y llynedd. Nid yw'r cynnydd hwn (4.3%) yn annisgwyl oherwydd bod troseddau rhyw yn denu dedfrydau hwy a gofynion cofrestru hwy. Bu cynnydd cenedlaethol mewn troseddwyr rhyw cofrestredig o 1.8%. Nifer y troseddwyr rhyw cofrestredig fesul 100,000 o'r boblogaeth yw: Gwent 73 yn erbyn ffigur cenedlaethol o 57. Mae'n ofynnol i droseddwr rhyw sy'n derbyn dedfryd o dair blynedd neu fwy o garchar gofrestru yn amhenodol felly bydd yn cael ei gyfrif yn ystadegau pob blwyddyn.

Nifer y troseddwyr a dderbyniodd ddedfryd o 12 mis a mwy o garchar neu orchymyn ysbyty am droseddau treisgar neu rywiol (categori 3) ac a reolwyd gan y broses MAPPA oedd 157. Mae hyn yn gynnydd o'i gymharu â 2005/06 lle cofnodwyd 115. Rydym yn gwella ein systemau ar gyfer dynodi troseddwyr MAPPA yn barhaus ac adlewyrchir hyn yn y cynnydd hwn. Nid yw ystadegau eleni yn cynnwys y troseddwyr hynny a arhosodd yn y ddalfa neu'r rhai hynny a letywyd mewn Adeilad Cymeradwy (Hostel Prawf) drwy gydol y cyfnod. Mae'n cadw gwybodaeth am y troseddwyr hynny a reolwyd yn y gymuned yn unig yn un o'r pum bwrdeistref yng Ngwent.

Roedd 31 o 'droseddwyr eraill' (categori 3) a oedd ag euogfarn flaenorol a oedd yn awgrymu y gallent achosi niwed difrifol ac yr oedd pryderon yn eu cylch ar y pryd. Mae'r cynnydd o 18 y llynedd yn arwydd fod asiantaethau yn cydweithio'n agos i ddynodi troseddwyr a allai fod yn beryglus. Byddai rhai troseddwyr yr ymdriniwyd â hwy o fewn y categori hwn wedi cael eu rheoli yn gan MAPPA yn flaenorol fel troseddwyr categori 1 neu 2.

Mae nifer y troseddwyr rhyw naill ai a gafodd eu rhybuddio neu eu heuogfarnu am dorri gofynion cofrestru yn dangos cynnydd sylweddol o 4 i 21. Mae hyn yn ganlyniad i system casglu cudd-wybodaeth sydd â mwy o strwythur iddi a dull mwy rhagweithiol a chadarn o blismona troseddwyr rhyw.

Byddem fel arfer yn disgwyl cynnydd yn nifer y gorchmynion atal troseddwyr rhyw (SOPOs) y gwneir cais amdanynt. Gyda'r defnydd ehangach o'r ddedfryd benagored i ddiogelu'r cyhoedd a roddwyd gan y llysoedd mae'r angen i ddefnyddio SOPOs fel rheolaeth wedi lleihau.

Trwy gydol y flwyddyn dan sylw galwyd 21 o droseddwyr a reolwyd ar lefel 2 neu 3 yn ôl i'r ddalfa am dorri eu trwydded ar ôl eu rhyddhau. Mae hyn yn rhoi tystiolaeth gref fod MAPPA yn defnyddio pob dewis sydd wrth law i reoli risg. Dau o nodau MAPPA yw diogelu'r cyhoedd a gwneud cymunedau yn lleoedd mwy diogel i fyw ynddynt. Yn gyffredinol dangosir bod MAPPA yng Ngwent yn gwneud cyfraniad sylweddol at y ddau nod yma.

1. Troseddwyr Categori 1 MAPPA: Troseddwyr Rhyw Cofrestredig*	406
i Nifer y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig sy'n byw yn eich ardal ar 31 Mawrth 2007 wedi eu rhannu yn ôl Uned Rheoli Sylfaenol	128
Rhanbarth A (Casnewydd)	116
Rhanbarth B (Sir Fynwy a Thorfaen)	162
Rhanbarth C (Blaenau Gwent a Chaerffili)	73

* Nifer y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig fesul 100,000 o boblogaeth

ii Nifer y troseddwyr rhyw gyda gofyniad i gofrestru naill ai a gafodd eu rhybuddio neu eu dedfrydu am dorri'r gofynion, rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2007	21

iii Nifer (a) y Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw y gwnaed cais amdanynt (b) Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw interim a roddwyd a (c) Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw llawn a roddwyd gan y llysoedd yn eich ardal rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2007	(a) 12 (b) 0 (C) 10

iv Nifer (a) y Gorchmynion Hysbysu y gwnaed cais amdanynt (b) y Gorchmynion Hysbysu Interim a roddwyd a (c) y Gorchmynion Hysbysu Llawn a osodwyd gan y llysoedd yn eich ardal rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2007	(a) 74 (b) 0 (c) 74

v Nifer y Gorchmynion Teithio Tramor (a) y gwnaed cais amdanynt a (b) a osodwyd gan y llysoedd yn eich ardal rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2007	(a) 0 (b) 0

2. Troseddwyr Categori 2 MAPPA: Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw eraill	
vi Nifer y troseddwyr treisgar a rhyw eraill (fel y diffinnir hynny gan Adran 327(3), (4) a (5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (2003)) rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2007	157

3. vii Troseddwyr Categori 3 MAPPA: Troseddwyr Eraill	31

4. Troseddwyr a reolwyd drwy Lefel 3 (MAPPP) a Lefel 2 (Rheolaeth Ryngasiantaethol Leol)	Lefel 2	Lefel 3
viii Faint o'r troseddwyr MAPPA ym mhob un o'r tri chategori (h.y. (1) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (2) Treisgar ac Arall, (3) Troseddwyr eraill uchod) sydd wedi eu rheoli drwy'r MAPPP (Lefel 3) a thrwy reoli risg rhyngasiantaethol lleol (Lefel 2) rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Mawrth 2007	Cat 1 TRC 43 Cat 2 (Treisgar) 39 Cat 3 (Arall) 28 Cyfanswm 110	Cat 1 TRC 6 Cat 2 (Treisgar) 4 Cat 3 (Arall) 3 Cyfanswm 13

ix Nifer yr achosion a reolwyd ar Lefel 2 neu 3 lle cafodd y troseddwr:	Lefel 2	Lefel 3
(a) Ei ddychwelyd i'r ddalfa am dorri trwydded	16	5
(b) Ei ddychwelyd i'r ddalfa am dorri gorchymyn atal troseddau rhyw	0	0
(c) A gyhuddwyd am drosedd rhyw neu dreisgar ddifrifol	0	0

Y FFORDD YMLAEN

Mae'r cynllun busnes ar gyfer 2007/08 yn adlewyrchu ymgyrch y Bwrdd Rheoli Strategol i sicrhau gwelliant parhaus yn y MAPPA yng Ngwent.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr ardaloedd Heddlu a Phrawf eraill yng Nghymru. Mae'r holl gyfranogwyr yn y broses hon yn cydnabod bod pethau i'w dysgu oddi wrth ein gilydd. Drwy rannu arfer gorau a rhannu tasgau gall pob un o'r pedair ardal yng Nghymru wella gwasanaethau yn gyflymach.

Mae Strategaeth Llety ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei pharatoi er mwyn darparu dull cyson o reoli risg yn y maes hollbwysig hwn. Mae'r awdurdodau lleol yng Ngwent yn darparu llawer o'r sbardun i yrru hyn yn ei flaen.

Mae strwythur yr is-grwpiau yn cael ei ehangu i gynnwys meysydd hollbwysig megis hyfforddiant a chyfathrebu. Dynodwyd angen yn y meysydd hyn ac mae is-grwpiau yn caniatáu i lawer mwy o waith wedi ei ganolbwyntio gael ei gyflawni. Bydd yr is-grŵp hyfforddiant yn canolbwyntio ar anghenion ymarferwyr ac ynghyd â'r is-bwyllgor cyfathrebu bydd yn dyfeisio hyfforddiant codi ymwybyddiaeth. Bydd hyn yn helpu grŵp ehangach o bobl i fod â dealltwriaeth ehangach o'r MAPPA a chodi proffil y gwaith sy'n cael ei gyflawni.

Mae newidiadau a thwf yn cael eu cynllunio ar gyfer staff gweithredol arbennig o fewn proses y MAPPA. Yn y flwyddyn i ddod bydd MAPPA yn mabwysiadu'r gronfa ddata VISOR sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Heddlu. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i rannu gwybodaeth fwy amserol a chywir a chadw cofnodion. Bydd rhoi manylion yn y gronfa ddata hon yn dasg ychwanegol y bydd angen adnoddau ychwanegol ar ei chyfer. Darperir y cyllid ar gyfer cynllun VISOR yn uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

CYSYLLTIADAU

Prif Swyddog yr Heddlu
Mike Tonge
Pencadlys yr Heddlu
Croesyceiliog
Cwmbrân
Gwent
NP44 2XJ

Prif Swyddog Prawf
Jane Coates
Ardal Prawf Gwent
Prif Swyddfa
Tŷ Cwmbrân
Stad Parc Mamhilad
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 0XD

Rheolwr Gweithrediadol HMPS Cymru
Geoffrey Hughes
Swyddfa Weithredol HMPS Cymru
102 Maryport Street
Brynbuga
NP15 1AH

Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol
ACC William Horne
Pencadlys yr Heddlu
Croesyceiliog
Cwmbrân
Gwent
NP44 2XJ

Prif Swyddog Prawf
Adam Gotley
Ardal Prawf Gwent
Prif Swyddfa
Tŷ Cwmbrân
Stad Parc Mamhilad
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 0XD

Prif Swyddog Carchardai
Sarah Davis
Swyddfa Weithredol HMPS Cymru
102 Maryport Street
Brynbuga
NP15 1AH

Prif Swyddog yr Heddlu
Ditectif Uwch Arolygydd Adrian Erasmus
Ditectif Brif Arolygydd Rhiannon Hodges
Pencadlys yr Heddlu
Croesyceiliog
Cwmbrân
Gwent
NP44 2XJ

Cydgysylltydd MAPPA
Gareth Hale
Swyddog Prawf Dwyrain Gwent
Station Road
Sebastopol
Pont-y-pŵl
Gwent
NP44 2XJ